# Gwasanaeth Cyfieithu Undeb Aber

# NEWYDDION DIWEDDARAF

Dilynwch ein cyfrifon cymdeithasol a ewch draw i'n gwefan!

@UndebAber

Undeb Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
SY23 3DX
union@aber.ac.uk
01970 621700

**Helo!**

Diolch yn fawr iawn am gytuno ar ddod i Undeb Aberystwyth. Dyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu.

Cyn i chi fynychu, hoffem ni rannu gwerthoedd yr Undeb gyda chi.

**Nod:** Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr.

Gweledigaeth: Dylai myfyrwyr Aber fod yn hapus, yn iach, ac yn cael eu grymuso, gyda ffrindiau oes a dyfodol disglair.

**Addewidion:**

- Byddwn yn darparu cyfleoedd i chi ddarganfod eich cymuned Aber.
- Byddwn yn ddylanwad cadarnhaol ar fyfyrwyr.
- Byddwn yn eich cefnogi chi i fod yn hapus ac iach.
- Byddwn yn helpu i chi fagu eich sgiliau a'ch profiadau.

**Gwerthoedd:**

- Myfyrwyr sydd wrth y llyw – eich llais chi sydd bwysicaf
- Cymuned ydyn i – rydyn ni eisiau i fod yn rhan ohoni
- Rydyn ni'n dryloyw – rydyn ni bob tro yn onest ac yn agored
- Rydyn ni'n uchelgeisiol – rydyn ni'n datblygu er y dyfodol
- Rydyn ni'n caru'r Gymraeg – rydyn ni'n gweithio dros y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Yn Undeb Aberystwyth rydyn ni hefyd yn ceisio defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd gyda'n holl fyfyrwyr. Rydyn ni'n eich annog i wneud yr un peth. Rydyn ni'n gwneud hyn er hygyrchedd a chynwysoldeb i'n holl aelodau.

Rydyn ni am i bawb deimlo'n saff a bod croeso iddynt pan yn ymweld ag Undeb Aber. I gefnogi ein nod, rydyn ni'n gofyn i chi wneud asesiad risg o'ch perfformiad/araith ayyb. Os oes modd i chi ei anfon atom cyn y digwyddiad, byddwn wedyn yn gallu ei adolygu a'i gynnwys yn ein hasesiad risg ein hun o'r digwyddiad.

A allwch hefyd roi gwybod i ni a oes gennych chi yswiriant atebolrwydd personol i ni gael cynnwys hyn yn yr asesiad risg. Os oes gennych chi unrhyw anghenion hygyrchedd neu fod angen rhagor o gymorth arnoch chi pan fyddwch chi gyda ni, gadewch i ni wybod a byddwn yn trio ein gorau i'ch cefnogi ym mha bynnag ffordd y gallwn ni.

Byddem ni'n ddiolchgar pe gallech chi ddarllen yr wybodaeth isod cyn i chi gyrraedd i wneud yn siŵr eich bod chi'n gwybod popeth sydd angen ei wybod!

**Gweithdrefn Gwacau mewn Tân:**

- Os byddwch chi'n darganfod tân, ewch i ganu'r larwm tân agosaf.
- Os byddwch chi'n clywed sŵn larwm, mae hynny'n golygu fod y weithdrefn gwacáu mewn tân wedi dechrau.
- Ewch yn bwyllog y tu allan i ymgynnull wrth y pwynt gwacau tân (Piazza) trwy'r allanfa agosaf, heb oedi i godi unrhyw eiddo.
- Cerddwch, yn lle rhedeg.

**Noder:** Mae'r larwm tân yn cael ei brofi bob bore Mawrth. Fodd bynnag, os bydd y larwm yn parhau, mae'n rhaid dilyn y weithdrefn gwacau mewn tân.

Ni chaniateir fflamau noeth ar unrhyw bryd yn yr adeilad. Gwaharddir ymysgu hefyd.

Mae citiau cymorth cyntaf i'w cael wrth y bar a'r dderbynfa yn yr Undeb.

Mae yna doiledau yn y bar a thoiledau niwtral o ran rhywedd yn yr ardal danddaearol.

Mae croeso i chi ddefnyddio ein Cegin Gymunedol yn yr ardal danddaearol lle ceir dŵr yfed, dŵr poeth a microdon.

Os bydd angen defnyddio'r Ystafell Lesiant neu Deulu, mae'r rhain yn swyddfeydd cefn yr ardal Danddaearol.

**Parcio:** Gellir nôl permit o dderbynfa'r Undeb.

Campws heb arian parod yw hwn

**WiFi:** PAU-GUEST

Dylai pob taflen/poster fod yn ddwyieithog lle bo'n bosib.

Yn ystod y digwyddiadau, gallai lluniau/fideos a dynnir ohonoch chi/neu eich stondin a'u defnyddio i hyrwyddo a/neu ar gyfer deunydd hyrwyddo.

**Dyma edrych ymlaen at eich croesawu chi!**